OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 9

## Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

**Gwybodaeth sydd i'w darparu i Weinidogion Cymru**

**134.**—(1) Rhaid i'r rheolwr cynllun, ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 31 Mawrth 2016 ("blwyddyn ariannol berthnasol") anfon yr wybodaeth ganlynol mewn ysgrifen at Weinidogion Cymru—

(a) y cyfanswm a amcangyfrifir gan y rheolwr cynllun a fydd yn daladwy allan o'r CBDT yn y flwyddyn ariannol honno;

(b) y cyfanswm a amcangyfrifir gan y rheolwr cynllun a gredydir i'r CBDT yn y flwyddyn ariannol honno;

(c) y cyfrifon nas archwiliwyd mewn perthynas â'r CBDT am y flwyddyn ariannol honno;

(d) y cyfrifon archwiliedig mewn perthynas â'r CBDT am y flwyddyn ariannol honno;

(e) y cyfanswm a dalwyd allan o'r CBDT yn y flwyddyn ariannol honno; ac

(f) y cyfanswm a dalwyd i mewn i'r CBDT yn y flwyddyn ariannol honno.

(2) Rhaid anfon yr wybodaeth ym mharagraff (1) yn y ffurf a bennir mewn ysgrifen gan Weinidogion Cymru.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), rhaid i'r rheolwr cynllun anfon yr amcangyfrif ar gyfer pob blwyddyn ariannol berthnasol at Weinidogion Cymru erbyn pa bynnag ddyddiad, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol, a bennir mewn ysgrifen gan Weinidogion Cymru.

(4) Os bydd y rheolwr cynllun yn diwygio unrhyw ran o'r wybodaeth a anfonir yn yr amcangyfrif, rhaid i'r rheolwr cynllun anfon yr wybodaeth ddiwygiedig ("yr amcangyfrif diwygiedig") at Weinidogion Cymru erbyn pa bynnag ddyddiad yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol, a bennir mewn ysgrifen gan Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid i'r rheolwr cynllun anfon yr wybodaeth nas archwiliwyd at Weinidogion Cymru erbyn pa bynnag ddyddiad ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol a bennir mewn ysgrifen gan Weinidogion Cymru.

(6) Rhaid i'r rheolwr cynllun anfon yr wybodaeth archwiliedig at Weinidogion Cymru erbyn pa bynnag ddyddiad ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a bennir mewn ysgrifen gan Weinidogion Cymru.

(7) Mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol berthnasol sy'n diweddu ar 31 Mawrth 2016, rhaid i'r rheolwr cynllun anfon yr amcangyfrif at Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol honno.